



## Mythau a ffeithiau 2016/17

### Myth

**Ni all fy mhlentyn fforddio mynd i'r brifysgol, mae'n rhy ddrud**

**Mae pob coleg a phrifysgol yn codi £9,000**

### Ffaith

Ni fydd yn rhaid i unrhyw fyfyrwr dalu ffioedd dysgu ymlaen llaw er mwyn mynd i brifysgol neu goleg, gan fod amrywiaeth eang o help ariannol ar gael gan Gyllid Myfyrwyr Cymru. Gall pob myfyrwr cymwys, beth bynnag fo incwm ei gartref, wneud cais am:

- Fenthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Ffioedd er mwyn talu cost lawn y ffioedd; a
- Benthyciad Cynhaliaeth i helpu talu costau byw.

Efallai hefyd y gallai myfyrwyr gael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (grant costau byw) neu Grant Cymorth Arbennig ac mae help ychwanegol ar gael i fyfyrwyr y mae ganddynt anabledd, plant neu oedolyn sy'n dibynnu arnynt yn ariannol. Efallai y bydd eu prifysgol neu goleg yn cynnig bwrsariaethau, ysgoloriaethau neu fathau eraill o help ariannol, felly mae'n werth eu holi nhw hefyd.

Mae rhai prifysgolion a cholegau yn codi llai na'r uchafswm o £9,000 — ond dylech droi at eu gwefannau unigol am wybodaeth ynghylch ffioedd cyrsiau. Hyd yn oed os ydynt yn codi'r swm llawn sef £9,000, gallai myfyrwyr fod yn gymwys i gael hepgorion ffioedd, gostyngiadau neu fuddion eraill, a dylent gysylltu â'r brifysgol neu'r coleg am wybodaeth bellach.

Ni fydd yn rhaid i unrhyw fyfyrwr dalu ffioedd dysgu ymlaen llaw. Yn ddibynnol ar a yw'n astudio cwrs mewn prifysgol a ariannir gan arian cyhoeddus neu brifysgol breifat, efallai y bydd myfyrwr newydd yn gymwys i gael Benthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Ffioedd a fydd yn talu ei ffioedd. Gall prifysgolion a cholegau preifat godi mwy na £9,000, ond dim ond uchafswm y Benthyciad Ffioedd Dysgu, sef £6,000, y gall eich plentyn ei gael, ac ni fydd yn cael Grant Ffioedd.

Bydd yn rhaid ad-dalu'r Benthyciad Ffioedd Dysgu, ond nid nes y bydd ei incwm dros £21,000 y flwyddyn. Ni fydd yn rhaid ad-dalu'r Grant Ffioedd.

## Myth

**Bydd ad-daliadau'r benthyciadau yn faich enfawr ac yn dal fy mhlentyn yn ôl**

**Bydd dyled myfyriwr yn atal fy mhlentyn rhag cael morgais neu fenthyciadau eraill**

**Os na fydd fy mhlentyn yn gallu fforddio ad-dalu'r benthyciad, bydd yn rhaid i mi ei dalu**

**Os bydd fy enillion yn uchel, ni fydd fy mhlentyn yn cael unrhyw gymorth**

**Mae fy mhlentyn yn 21 oed ac mae wedi gadael y cartref, felly mae'n cael ei ystyried i fod yn fyfyrwr annibynnol**

## Ffaith

Ni fydd yr ad-daliadau yn dechrau nes bydd incwm eich plentyn dros £21,000 y flwyddyn. Pan fydd yn dechrau ad-dalu, bydd y swm y bydd yn ad-dalu yn seiliedig ar ei incwm, nid y swm a fenthycwyd.

Er enghraifft, os bydd yn ennill £25,000 y flwyddyn, mae hynny yn golygu swm o £30 y mis (9% o £4,000, wedi'i rannu gyda 12 mis). Bydd yr ad-daliadau yn stopio os bydd eich plentyn yn stopio gweithio neu os bydd ei incwm yn llai nag £21,000 y flwyddyn.

Bydd y swm y bydd yn ei ad-dalu bob mis yn cynyddu gyda'i enillion – yn debyg i dreth – ac fel arfer, cesglir yr ad-daliadau gan ei gyflogwr gyda'i dreth a'i Yswiriant Gwladol.

Caiff benthyciadau eu dileu 30 o flynyddoedd wedi'r adeg pan fydd angen dechrau eu had-dalu.

Mae benthyciadau myfyrwyr yn enghraifft o fenthycia diwarant gan y llywodraeth ac maent yn wahanol iawn i gardiau credyd neu fenthyciadau masnachol. Ni fyddant yn cael eu cynnwys mewn ffeiliau credyd ac ni fyddant yn ymddangos mewn archwiliadau credyd.

Mae benthyciadau myfyrwyr yn gyfrifoldeb llwyr i'r myfyriwr sy'n eu cael. Ni ellir trosglwyddo atebolrwydd dros y benthyciadau i'w rieni neu i unrhyw un arall. Os na fydd incwm y myfyriwr yn uwch na'r trothwy, ni fyddant yn ei ad-dalu.

Nid yw'r holl gyllid i fyfyrwyr yn dibynnu ar incwm y cartref, a gall wneud cais am y canlynol dan unrhyw amgylchiadau:

- Benthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Ffioedd er mwyn talu am gost lawn ffioedd, a;
- Benthyciad Cynhaliaeth i helpu talu ei gostau byw, nid yw 75% o'r Benthyciad Cynhaliaeth yn ddibynnol ar incwm y cartref.

Er mwyn cael ei ystyried i fod yn fyfyrwr annibynnol, rhaid iddo berthyn i un o'r categorïau hyn:

- rhaid iddo fod yn 25 oed neu'n hŷn;
- rhaid ei fod wedi gadael cartref y rhieni ac wedi bod yn cynnal ei hun yn ariannol am o leiaf dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf ei gwrs;
- rhaid ei fod yn briod neu mewn partneriaeth sifil neu wedi bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil;
- rhaid ei fod yn gyfrifol am ofalu am unigolyn dan 18 oed, beth bynnag fo'i berthynas gyda'r plentyn;
- rhaid ei fod wedi ymddieithrio o'i rieni yn barhaol; neu
- wedi bod yn derbyn gofal gan ei awdurdod lleol.

Byddwn yn gofyn am dystiolaeth i gadarnhau ei fod yn annibynnol.

## Myth

**Os bydd fy mhlentyn yn symud i wlad dramor, ni fydd yn rhaid iddo ad-dalu ei fenthyciad myfyriwr**

## Ffaith

Pan fydd eich plentyn yn cael benthyciad, bydd yn cytuno i wneud yr ad-daliadau a fydd yn ddyledus. Os bydd yn symud i wlad dramor, rhaid iddo ddweud wrth y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr er mwyn i ni allu gwneud trefniadau iddo barhau i ad-dalu ei fenthyciad.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ad-dalu trwy droi at:  
**[www.studentloanrepayment.co.uk](http://www.studentloanrepayment.co.uk)**

Mae Cyllid Myfyrrwyr Cymru yn wasanaeth a ddarparir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr. Rydym yn darparu cymorth ariannol ar ran Llywodraeth Cymru i fyfyrrwyr o Gymru sy'n cychwyn ar gwrs addysg uwch yn y DU.

ENDORSED BY

**HELOA**

[www.cyllidmyfyrrwycymru.co.uk/ymarferwyr](http://www.cyllidmyfyrrwycymru.co.uk/ymarferwyr)

 [facebook.com/SFWales](https://facebook.com/SFWales)

 [twitter.com/SF\\_Wales](https://twitter.com/SF_Wales)

 [youtube.com/SFWFILM](https://youtube.com/SFWFILM)

student finance wales  
cyllid myfyrrwyr cymru



Ariennir gan  
Lywodraeth Cymru  
Funded by  
Welsh Government